



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Crymych
Canolfan Plant Y Frenni,
Crymych
Sir Benfro
SA41 3QH**

Dyddiad yr arolygiad: 22-23 Tachwedd, 2012

gan

Dorothy Morris

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/12/2012

Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Crymoch mewn ystafell yng Nghanolfan Plant y Frenni ar safle campws a rennir gyda meithrinfa ddyddiol, ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig cyfleusterau cyffredinol o ansawdd da.

Mae'r plant sydd yn mynychu'r lleoliad yn dod o'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Yn dilyn eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn parhau â'u haddysg yn Ysgol Gynradd Y Frenni.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy a thair oed. Mae ar agor am bum diwrnod yr wythnos rhwng 9.00 a 11.30 y bore yn ystod y tymor ysgol. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd deuddeg plentyn tair oed ar y gofrestr yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant Sir Benfro. Saesneg yw prif iaith y cartref i 50% o'r plant. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad wedi ei staffio gan arweinydd amser llawn a thair ymarferwraig rhan-amser. Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Penodwyd yr arweinydd presennol i'w swydd yn 2006. Caiff y lleoliad ei reoli gan bwyllgor gwirfoddol lleol.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym Mawrth 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2011. Mae wedi ei gofrestru dan Ddeddf Plant 1989 ac yn perthyn i'r Mudiad Meithrin.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn;
- bod gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da iawn tuag at ddysgu;
- bod y plant yn derbyn ystod o weithgareddau diddorol;
- bod yr addysgu'n dda ar y cyfan; a
- bod y plant yn derbyn gofal a chymorth da mewn amgylchedd dysgu cynnes.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod y prif ymarferydd yn cynnig arweiniad cadarn;
- bod gwaith tîm effeithiol;
- bod yr ymarferwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant;
- bod yr ymarferwyr yn arfarnu'r ddarpariaeth ac yn cyflwyno gwelliannau yn llwyddiannus; a
- bod cysylltiadau effeithiol gydag ystod o bartneriaethau.

Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r lleoliad:

A1 ymestyn medrau llythrennedd Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant ymhellach;

A2 mireinio'r cynllunio er mwyn sicrhau bod tasgau yn cynnig her briodol i'r plant yn gyson; a

A3 blaenoriaethu'r meysydd sydd angen eu gwella yn y cynllun datblygu.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
--	----

Safonau: Da

Mae medrau gwrando y rhan fwyaf o'r plant yn dda. Mae tua hanner o'r plant yn cynnal sgwrs syml yn hyderus ac yn dangos gafael sicr ar ystod o eirfa briodol. Mae'r gweddill yn deall cyfarchion, cyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae bron pob un o'r plant yn deall stori a ddarllenir iddynt ac amlygant fwynhad wrth ymuno mewn deialog gan ddefnyddio pypedau. Mae'r rhan fwyaf yn deall fod lluniau a phrint yn cyfleu ystyr ac yn adnabod eu cardiau enw. Gall yr holl blant adalw ystod dda o rigymau a chaneuon a'u canu yn gywir. Mae'r mwyafrif o'r plant yn defnyddio offer marcio yn bwrpasol i dynnu lluniau, creu siapiau a chopio llythrennau.

Gwna'r mwyafrif o'r plant ddefnydd effeithiol o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un yn cyfrif i o leiaf deg ac yn defnyddio iaith fathemategol, megis mawr a bach, llawn a gwag, yn gywir mewn sefyllfaoedd ymarferol. Mae'r plant mwy galluog yn defnyddio termau, megis trymaf a mwyaf, gyda dealltwriaeth dda. Gall y rhan fwyaf o'r plant greu a dilyn patrwm yn gywir. Maent yn adnabod siapiau sylfaenol ac yn gwybod bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Mae ychydig o'r plant yn ddefnyddwyr hyderus o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sylfaenol. Gyda chymorth, mae'r mwyafrif yn medru symud gwrthrychau ar y sgrin, dechrau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy, recordio sylwadau byrion a defnyddio camera digidol.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant ddefnydd effeithiol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau megis adeiladu gyda blociau, cwblhau jig-sos ac ymchwilio yn yr ardal allanol. Defnyddiant offer torri, peintio a gludo yn gymwys yn eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau creu cerddoriaeth ac yn gwybod y gwahaniaeth rhwng elfennau cerddorol megis tawel ac uchel, araf a chyflym.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda. Mae'r holl blant yn gyfarwydd â threfn y sesiwn ac maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau, megis 'helpwr y dydd' a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus.

Lles: Da

Mae'r holl blant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac yn mwynhau eu dysgu. Maent yn hapus yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Maent yn ymddwyn yn dda iawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos ymagweddau da iawn tuag at ddysgu. Maent yn gweithio'n ddiwyd ar dasg am gyfnod addas o amser ac yn cyd-chwarae'n hwylus gyda'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus.

Mae gan lawer o'r plant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta byr brydau.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy'r ystod o brofiadau sydd yn deillio o'r bartneriaeth agos gyda'r ysgol a'r gymuned. Mae lefelau presenoldeb yn dda.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd adeiladol o fframweithiau cynllunio sydd yn adlewyrchu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a datblygiad y plant. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at y cynllunio. Mae'r drefn o arfarnu gweithrediad pob thema yn gyson ac addasu'r cynllunio yn bwrpasol yn ôl ymateb y plant a'r ymarferwyr yn nodwedd effeithiol iawn.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant trwy'r profiadau dysgu a ddarperir. Er hynny, nid oes darpariaeth ddigonol bob amser i hyrwyddo medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant yn gyson.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant wrando ar storïau, sgwrsio am eu gweithgareddau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Cyflwynir plant i draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae ymweliadau yn y gymuned, megis â neuadd y farchnad a fferm ceffylau gwedd, yn cefnogi hyn ymhellach.

Darperir cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae thema Bwyd y Byd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am ffyrdd o fyw pobl mewn gwledydd eraill. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys coginio a blasu bwyd gwahanol, astudio dillad a thrafod adeiladau enwog. Mae'r gwaith hwn o safon dda iawn ac yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'r byd ehangach.

Mae gweithgareddau pwrpasol yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i barchu a gofalu am yr amgylchedd a phopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu planhigion a llysiau, a dysgu am ailgylchu.

Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn sicrhau eu hymrwymiad gweithredol yn eu dysgu. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr. Mae'r gweithgareddau wedi eu paratoi yn drylwyr a gwneir defnydd effeithiol o adnoddau i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu. Er hynny, nid yw'r tasgau wedi'u strwythuro'n ddigon manwl bob amser i gynnig her briodol i bob plentyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig modelau iaith o safon dda iawn i'r plant. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda'r plant yn ystod gweithgareddau ac yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn a chyfoethogi eu hiaith.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddiant weithdrefnau addas i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Defnyddir y wybodaeth a gesglir yn briodol i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol, nosweithiau rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig bob tymor. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo addas i'r ysgol gynradd.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn

ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Mae'r lleoliad wedi cychwyn ar raglen addysg iechyd cyn-ysgol yr awdurdod lleol ac yn rhoi sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd byw yn iach.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cynnwys llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol pan mae angen.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i hybu gwerthoedd pwysig megis gofal, cyfeillgarwch a pharch. Mae profiadau, megis dathliadau diolchgarwch a'r Nadolig, adrodd gweddi cyn mynd adref a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwasanaethau yn y capeli lleol, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae'r cyfleoedd i blant berfformio mewn cyngherddau bach ar gyfer y rhieni yn cyfrannu ymhellach at eu datblygiad cymdeithasol. Rhoddir sylw da i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu rhai llai ffodus trwy gasglu arian at achosion da.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion pob plentyn. Llwyddant i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'r plant.

Mae gan y lleoliad nifer briodol o ymarferwyr. Mae'r adeilad o ansawdd da a gwneir defnydd llawn o'r lle sydd ar gael. Mae'r ymarferwyr yn ymdopi'n dda gyda'r drefn o rannu'r ystafell gydag asiantaethau eraill. Er hynny, mae'r lle i arddangos gwaith y plant ac i greu ystod o ardaloedd dysgu yn fwy cyfyng. Caiff yr amgylchedd dysgu ei gyfoethogi gan arddangosfeydd diddorol o waith y plant. Gwneir defnydd cynhyrchiol o'r ardal awyr agored sy'n cynnwys ardaloedd ymchwilio pwrpasol i hybu medrau dysgu'r plant ar draws y cwricwlwm.

Mae adnoddau digonol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Gwneir defnydd da o'r gymuned i gyfoethogi'r dysgu trwy ymweliadau a chyfraniadau pobl lleol, megis pobydd, plismon a'r gweinidog lleol, i'r gweithgareddau.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r prif ymarferydd yn arwain trwy esiampl ac yn dangos ymrwymiad cadarn i addysg a lles y plant. Mae agweddau da iawn i'r cynllunio a'r drefniadaeth gyffredinol sy'n creu amgylchedd trefnus a phwrpasol. Mae'r ymarferwyr i gyd yn deall eu rolau ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn

sy'n cael eu hadlewyrchu'n glir yn ethos a gwaith y lleoliad. Caiff polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr eu datblygu a'u rhoi ar waith yn ofalus.

Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn cynnig cymorth cyson i'r ymarferwyr. Mae gan yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae'r aelodau yn ymwelwyr rheolaidd ac mae eu rôl mewn prosesau arfarnu a blaengynllunio yn datblygu. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau cyfathrebu Cymraeg y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan y prif ymarferydd ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd i'w gwella. Mae'r drefn sefydlog o'r ymarferwyr yn trafod agweddau ar y ddarpariaeth ac yn cydweithredu i gyflwyno newidiadau yn gwella'r profiadau a gynigir i'r plant.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sy'n deillio o hyn yn ddogfen drylwyr ac yn adnabod nifer o feysydd priodol ar gyfer gwelliant. Mae yn cynnwys amserlen, yn nodi'r adnoddau fydd eu hangen ac yn gosod cyfrifoldebau. Caiff y cynllun ei weithredu gyda gofal. Er hynny, nid yw'r meysydd i dderbyn sylw wedi'u blaenoriaethu'n ddigonol i gynorthwyo'r ymarferwyr i fynd i'r afael â'r holl dasgau.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n briodol gan athrawon cyswllt yr awdurdod addysg. Mae meysydd i'w datblygu yn cael eu cytuno a gweithredu strategaethau perthnasol sydd yn datblygu'r ddarpariaeth. Ceisir barn rhieni yn briodol trwy drafod a thrwy holiaduron. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant addas ar ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Caiff yr hyfforddiant effaith adeiladol mewn agweddau megis datblygu'r cwricwlwm. Mae aelodau unigol yn gwneud defnydd pwrpasol o gyfleoedd hyfforddiant i ennill cymwysterau pellach yn addysg y Blynyddoedd Cynnar.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r lleoliad yn cyd-weithio'n gynhyrchiol gydag ystod o bartneriaid sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant. Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda'r partneriaid.

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy lyfyrnau, cylchlythyron a'r hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r cysylltiadau cadarnhaol gyda'r ysgol gynradd yn cynnig cyfleoedd da i'r ymarferwyr a'r plant ddefnyddio'r adnoddau dysgu sydd ar safle'r ysgol. Mae hefyd yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg.

Mae'r bartneriaeth adeiladol gyda'r pwyllgor rheoli, yr athrawon cyswllt a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwaith y lleoliad. Mae'r cysylltiadau niferus gyda'r gymuned yn dylanwadu'n effeithiol ar ddysgu'r plant.

Rheoli adnoddau: Da

Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol. Gwneir defnydd da o amser a phrofiad yr ymarferwyr sy'n sicrhau bod arferion dyddiol yn gweithredu'n llwyddiannus. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ac mae eu hargaeledd, yn arbennig yn yr ardaloedd allanol, yn hybu annibyniaeth y plant fel dysgwyr. Caiff yr adeilad a'r ardaloedd tu allan eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb ac mae gwariant yn cael ei flaenoriaethu'n addas yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o fentrau codi arian ac o grantiau er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau a chymryd rhan ymhob gweithgaredd.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol -

Dorothy Morris

Arolygydd Cofnodol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.
Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.